**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Douglas Bain
Y Comisiynydd Safonau

24 Tachwedd 2023

Annwyl Douglas

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adalw Aelodau o'r Senedd

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ffurfiol i'r Senedd ar 18 Medi 2023. Rôl y Pwyllgor Biliau Diwygio yw cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu tystiolaeth i lywio ein casgliadau ac unrhyw argymhellion yr hoffem eu gwneud. Un mater sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, ond nad yw'n cael sylw yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, yw'r cwestiwn ynghylch a ddylai fod mecanwaith lle byddai Aelodau o'r Senedd yn gallu cael eu hadalw gan eu hetholwyr.

Mae mecanweithiau adalw yn gymharol brin mewn perthynas â deddfwrfeydd, er bod Deddf Adalw Aelodau Seneddol y DU 2015 wedi cyflwyno mecanwaith ar gyfer adalw ASau. Mae Deddf 2015 yn darparu os caiff un o'r amodau ei fodloni, rhaid i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r swyddog canlyniadau/deisebau yn etholaeth yr Aelod Seneddol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae yna gyfnod o chwe wythnos yn dilyn hynny pan gaiff pleidleiswyr cofrestredig cymwys lofnodi'r ddeiseb adalw. Os bydd o leiaf 10 y cant o'r pleidleiswyr cofrestredig cymwys yn gwneud hynny, yna bydd sedd yr AS yn wag, a bydd y confensiynau arferol ar gyfer llenwi sedd wag yn berthnasol. Hyd yma, mae pedair deiseb adalw wedi cael eu cynnal, ac mae nifer o ASau sydd wedi bodloni'r amodau ar gyfer cynnal deiseb wedi dewis ymddiswyddo o'u seddi cyn y gellid agor deiseb.

Mae ASA, fel rhan o ddatblygiad Bil Aelod posibl, wedi ymgynghori ar sut y gellid datblygu mecanwaith adalw o fewn System Aelodau Ychwanegol Senedd yr Alban. Cynigiodd yr ASA y byddai Aelod o Senedd yr Alban yn cael ei adalw pe bai'n cael ei wahardd am 10 diwrnod eistedd neu fwy o

ganlyniad i dorri'r cod ymddygiad, neu os caiff yr Aelod ddirwy, o ganlyniad i achos llys, o unrhyw swm hyd at uchafswm y ddirwy ar lefel 5 o'r raddfa safonol.

Mae nifer o systemau eisoes ar waith yn y Senedd y gellir eu defnyddio i wneud y canlynol o ran yr Aelodau:

- Anghymhwyso, er enghraifft, os ydynt yn bodloni un o'r amodau neu'n cael eu penodi i un o'r swyddi anghymwys yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu Atodlen 1A iddi, neu os ydynt yn dod yn Aelod o un o ddeddfwrfeydd eraill y DU (yn ddarostyngedig i amodau penodol).

- Sancsiynu, o ganlyniad i fethu â bodloni'r safonau a nodir yn y Cod Ymddygiad. Efallai na fydd sancsiynau o'r fath yn cynnwys diswyddo. Gallant gynnwys ceryddu, gwahardd yr Aelod o drafodion y Senedd, neu dynnu hawliau a breintiau penodol yn ôl. Mae penderfyniad ar unrhyw gosb o'r fath yn fater i'r Senedd ar sail adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor hwnnw o adroddiad gan y Comisiynydd Safonau ar ei ymchwiliad i gŵyn dderbyniadwy.

Pe bai mecanwaith adalw yn cael ei gyflwyno, byddai'n rhan o'r ystod o fesurau ar gyfer atebolrwydd Aelodau unigol o'r Senedd. Felly, byddem yn croesawu eich barn chi, fel Comisiynydd Safonau, ar y canlynol:

1. A ydych yn meddwl y byddai'n briodol cael mecanwaith ar gyfer adalw Aelodau o'r Senedd.

2. Pe bai mecanwaith o'r fath, a oes gennych farn ar ba amodau y dylid eu gwneud yn ofynnol er mwyn sbarduno adalw?

3. Unrhyw fater arall sy'n ymwneud naill ai ag adalw Aelodau o'r Senedd, neu Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn fwy cyffredinol.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig erbyn dydd Iau 7 Rhagfyr 2023.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

cc Vikki Howells AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.